

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 9 fed o FAI 2022 YN NEUADD PONTIETS YN DILYN Y CYFARFOD BLYNYDDOL

Presennol: Ian Evans (Cadeirydd yn y gadair), Alan Lewis, Tyssul Evans, Margaret Rees, Linda Williams, Delyth Thomas, Aled Williams, Meic Bowen, Tracey James a'r Clerc, Glyndwr Prideaux.

Ymddiheuriadau: Heddwyn Jones, Geraint Rosser a Caroline Williams.

2812 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Cyfeiriwyd at dostrwydd Aled Williams, Heddwyn Jones a Geraint Rosser a dymunwyd adferiad buan iddynt oll. Estynnwyd Croeso cynnes I Delyth Thomas i'w chyfarfod cyntaf a diolchwyd i'r Cyn-gynghorwr Geoff Hewitt am ei wasanaeth hir i'r Cyngor a'r Gymuned.

2813 Cofnodion

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 04/04/2022 fel rhai cywir.

2814 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 2786 - Clwb Cymdeithasol Carwe. - Cafwyd adroddiad gan y Clerc. Mae hwn yn nwylo Adran Gorfodi Rheolau Cynllunio'r Cyngor Sir fel mater o frys.

Penderfynwyd gofyn am Gyfarfod Safle i drafod y mater.

Tud 1. Cofnod Rhif 2786 - Cofeb Rhyfel Pontiets – Arhoswn am ymateb gan y 'War memorial Trust'.

Tud 1. Cofnod Rhif 2786 - Llwybr Treftadaeth – Arhoswn am ymateb oddiwrth Phil Wait.

Tud 1. Cofnod Rhif 2786 – Sedd yng Ngharwe – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Tud 1. Cofnod Rhif 2786 - Meddygfa'r Sarn, Pontiets – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Feddygfa. Penderfynwyd gofyn i Adam Price A.C. am ei gymorth yn y mater hwn.

Tud 1. Cofnod Rhif 2786 – Cysgodfa Bys – Tir Dafydd, Pontiets – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Tud 1. Cofnod Rhif 2786 – Rhodfa Ceffylau – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

2815 Llangyndeyrn Indoor Bowls Club - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

2816 Kids Cancer Trust – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2817 Bethan Thomas, Llangyndeyrn – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2818 Gwenllïan Elias, Llangyndeyrn - Llythyr yn diolch am y rhodd.

2819 Neuadd Pontiets – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2820 Maria Sanderson – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2821 CFFI – Rali Flynyddol – Diolchwyd am y gwahoddiad.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2822 Cyngor Sir Gar- Cod Ymddygiad 2021/2022 – Nodwyd y Llythyr.

2823 BT – Ciosg ar Heol y Meinciau – Pontiets – Penderfynwyd gwrthod prynu'r Ciosg.

Ceisiadau Cynllunio

2824

a) Rhif y Cais - PL/03931 – Pantgwine, Pontantwn - Satellite - Dim Gwrthwynebiad.

Gwaharddiad y Cyhoedd

2825 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2826 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Ebrill..Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

2827 Parc Pontiets - Cafwyd adroddiad gan y Clerc a phenderfynwyd ar y canlynol:

a) Gosod Plac ar y Ford Picnic newydd a fydd yn cael ei osod yn y Parc.

b) Arhoswn am brisiau am osod Tarmac newydd y Parc yn lle'r Briciau.

c) Mae rhan o waith gosod CCTV yn y Parc a'r Maes Parcio wedi dechrau.

Ch) Gofyn I Gwmni Wicksteed cwblhau'r Ffens newydd cyn gynted â phosibl.

Penderfynwyd awdurdodi'r Cadeirydd,Is-gadeirydd a'r Clerc i ddelio a phenderfynu ynglŷn â mater y Tarmac.

2828 Diffibriliwr – Gobeithio y bydd y bocsys yn eu lle yn fuan iawn.

2829 Llofnodi Sieciau - Penderfynwyd y byddai'r 3 o'r canlynol yn llofnodi sieciau ar ran y Cyngor :-

a) Linda Williams

b) Tyssul Evans

c) Tracey James

ch) Alan Lewis

d) Clerc y Cyngor

2830 Archwiliwr Mewnol – Penderfynwyd gwahodd Mr Phillip E.Sillck, Gorseinon I fod yn Archwiliwr Mewnol y Cyngor am y flwyddyn 2021 – 2022.

2831 Asesiad Risg – Cynigwyd gan Alan Lewis ac eiliwyd gan Tracey James ein bod yn derbyn yr Asesiad Risg fel y cyflwynwyd am y flwyddyn 2022 – 2023.

2832 Yswiriant Y Cyngor – Cynigwyd gan Margaret Rees ac eiliwyd gan Aled Williams ein bod yn derbyn pris Zurich o £1234.02 am y flwyddyn 2022 -2023.

2833 Cyfarfodydd y Cyngor - Penderfynwyd bod Cyfarfodydd y Cyngor i'w chynnal y Swyddfa'r Cyngor tan ddiwedd y flwyddyn .

2834 Gatiau Neuadd Meinciau - Penderfynwyd gofyn i Wynnstey am amcan brys gatiau newydd.

Cyfarfod nesaf:- 6ed o Fehefin 2022 – Neuadd Pontiets

Llofnodwyd..... **CADEIRYDD**

Dyddiad.....